



Amcan Llesiant 14

Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Gweithredu a monitro Safonau'r Gymraeg		
Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. (Cyf. 13280)	✓	Mae'r tîm Polisi a Phartneriaeth wedi meithrin perthynas waith gadarnhaol gydag adrannau ac rydym yn parhau i ddarparu cyngor ymarferol ynghylch gweithredu'r Safonau. Mae nodiadau canllaw manwl wedi'u paratoi ac wedi'u dosbarthu ac rydym yn gyson fonitro'r modd cânt eu rhoi ar waith. Mae canllawiau drafft wedi'u paratoi ar ddarparu hyfforddiant dwyieithog / cynnal asesiadau hyfforddi a chynnal cyfweiliadau cyfrwng Gymraeg / dwyieithog. Hefyd rydym yn cael ymholiadau a chwynion gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cael eu monitro'n agos ac yn darparu adborth gwerthfawr ar y gwasanaethau a ddarperir ac unrhyw waith datblygu angenrheidiol.
Byddwn yn datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg integredig ar gyfer ein staff. (Cyf. 12425)	✓	Yn ystod y flwyddyn roedd 3 carfan o staff (30 i gyd) wedi cwblhau'r rhaglen Cymraeg Gwaith - Dwys gyntaf yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r fframwaith mentora wedi'i roi ar waith bellach. Mae staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac erbyn hyn mae gennym 82 o fentoriaid Cymraeg ar y gronfa ddata. Mae gan y cwrs gwreiddiol, Cymraeg - Croeso, hefyd gwrs dilynol, Cymraeg - Croeso 'Nôl. Yn hytrach na neilltuo wythnos i staff Cyngor Sir Caerfyrddin fynychu cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn, rydym wedi penderfynu rhoi i'r staff ystod o ddyddiadau yn Nant Gwrtheyrn a Chastell Aberteifi, a byddant yn dysgu gyda phobl eraill ar draws Cymru.
I hwyluso gwneud penderfyniadau da, byddwn yn cyflwyno Asesiad Effaith integredig a fydd yn cyfnerthu'r gofynion o ran Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (Cyf. 13281)	✓	Mae Asesiad Effaith Integredig drafft wedi'i baratoi, ynghyd â nodiadau canllaw manwl ar gyfer awduron adroddiadau. Mae'r Asesiad yn cynnwys cwestiynau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cydraddoldeb, Mesur y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf yr Amgylchedd, a datganiadau preifatrwydd.
B – Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg		
I hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg - Byddwn yn cynyddu'r niferoedd sy'n ennill sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo'r iaith yn y cartref. (Cyf. 12938)	✓	Mae gan y camau hyn gysylltiad agos â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a phrosiectau megis Cymraeg i Blant, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yn parhau am 2019/20 a bydd ein Fforwm Strategol y Gymraeg nesaf yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar ac yn gwerthuso cynnwys y cynllun gweithredu presennol i gyflawni'r amcan hwn.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Rydym hefyd wedi paratoi adnoddau i egluro manteision addysg ddwyieithog a byddwn yn cefnogi'r camau nesaf o ran rhoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith ar draws y sir.
Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd, a byddwn yn annog ac yn helpu sefydliadau'r sir i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng cynyddol naturiol i'w Gwasanaethau. (Cyf 12939) MF5-86	✓	Mae gan y Cyngor nifer o gyfleoedd dysgu i aelodau o staff drwy'r tîm Cymraeg i Oedolion mewnol a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Rydym yn helpu staff drwy'r cyrsiau Addysg Gymunedol a hefyd y cyrsiau Dwys a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Hefyd mae nifer o fentrau partneriaeth fel 'Clwb Cwtsh running' yn y sir lle mae'r Mudiad Meithrin a'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnal sesiynau penodol i gefnogi rhieni plant bach i ddysgu Cymraeg.
Byddwn yn cymryd camau i gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth er mwyn denu ein pobl ifanc i'r sir fel bod y cynnydd a wneir o ran siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg ddim yn cael ei golli. Hefyd, ymdrechion i gymathu newydd-ddyfodiaid a sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg. (Cyf 12940) MF5-86	✓	Mae Fforwm Iaith Gymraeg Strategol y Sir wedi datblygu 'Pecyn Croeso' ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sir. Mae'r gwaith dosbarthu wedi cychwyn drwy sianelau amrywiol megis y Gwasanaethau Etholiadol, y Gwasanaethau Tai a'r Mentrau Iaith. Mae dau aelod o'r Fforwm Strategol yn aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid y Cynllun Datblygu Lleol a cheir diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â diwygio'r CDLI. Hefyd mae prosiectau allweddol ar y gweill yn yr Is-adran Tai a Chymunedau Mwy Diogel sy'n cefnogi'r gwaith hwn, megis yr arolwg anghenion tai gwledig.
Byddwn yn targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. (Cyf 12941) MF5-86	✓	Mae'r Mentrau Iaith wedi bod yn llwyddiannus mewn ymgais drwy LEADER er mwyn dyrannu adnoddau ychwanegol i'r Meysydd Blaenoriaeth a nodwyd ar draws y sir. Mae swyddogion wedi'u penodi ac wedi paratoi cynllun gwaith penodol, gan ddefnyddio canllawiau manwl/templodi wedi'u paratoi gan Lywodraeth Cymru o dan y teitl 'Gweithredu'n Lleol/Local Action'. Mae Fforwm Strategol y Gymraeg yn cael diweddariadau'n rheolaidd ynghylch y gwaith ym mhob ardal
Byddwn yn marchnata ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Codi statws y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog. A thrwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, cael mwy o drigolion y sir i ddysgu'r iaith. (Cyf 12942) MF5-86	✓	Mae Fforwm Strategol y Sir wedi arwain ar baratoi 'Pecyn Gwybodaeth' i unigolion / teuluoedd sy'n symud i Sir Gaerfyrddin sy'n darparu'r cyd-destun ieithyddol a'r cyfleoedd ar gyfer addysg ddwyieithog. Mae cysylltiad agos rhwng y ddogfen hon a thaflen 'Bod yn Ddwyieithog yn Sir Gaerfyrddin'. Fel rhan o'r camau nesaf o weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn datblygu ymhellach y 'Cwestiynau Cyffredin' a'r fideos ar ran Addysg y wefan gorfforaethol.
Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Actif'. (Cyf 13283) MF5-56	✓	Mae'r Gwasanaethau Integredig yn parhau i ymgysylltu'n llawn â grŵp iaith Gymraeg yr adran i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth o safon uchel ac yn bodloni ei rwymedigaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bu i'r astudiaeth o Sgiliau Cymraeg yr adran, ynghyd ag arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalmwyr 2018, ddangos lefelau ieithyddol da a bodlonrwydd rhagorol gan

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o ran cyrchu gwasanaethau yn eu dewis iaith.
Byddwn yn datblygu cyfres o fesurau i gefnogi ein cynnydd o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg. (Cyf. 13284)	✓	Mae gwaith mapio manwl o'r dangosyddion posibl wedi'i wneud. Fodd bynnag, cydnabyddir taw'r Cyfrifiad yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy o ddata ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg. Rydym yn disgwyl rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch dangosyddion posibl i fesur cynnydd yn erbyn Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg
C - Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau Addysg i gyd		
Byddwn yn gweithredu cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. (Cyf. 13285)	✓	Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi cael ei lansio a chynhaliwyd cyfres o weithdai gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd ac arwyddocâd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'r holl ysgolion, beth bynnag eu categori iaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd ysgol unigol hefyd y mae rhieni wedi eu mynychu. Mae archwiliadau o barodrwydd ysgolion ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi eu cwblhau. Mae papur gweithredu wedi'i baratoi sy'n manylu ar y camau y gall pob ysgol eu cymryd ac yn rhestru'r rhai y bwriedir ymgynghori'n ffurfiol yn eu cylch i newid natur y ddarpariaeth. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau anffurfiol â'r holl randdeiliaid.
Byddwn yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir i'w symud ar hyd y continwmm iaith Gymraeg a hefyd i sicrhau bod disgyblion unigol mewn ysgolion perthnasol yn cael cyfleoedd i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol. (Cyf 13286) MF5-31	✓	Rydym yn gweithio tuag at ein targedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wrth symud ysgolion, cynradd ac uwchradd, ar hyd y continwmm iaith. Mae cynllun gweithredu/datblygu wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei hwyluso. Rydym yn gweithio'n agos gyda thîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg i gynnig newid yn y ddarpariaeth o fewn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ysgolion penodol sydd mewn sefyllfa i wneud hynny. Rydym yn ymgynghori'n anffurfiol â'r holl randdeiliaid ar hyn o bryd. Mae hyfforddiant iaith yn ardal Llanelli ar gyfer y sector Cynradd ac Uwchradd wedi cael ei ymestyn i'r sir gyfan ond erbyn hyn mae cyllid wedi dod i ben. Fodd bynnag, rydym yn ceisio cael mwy o arian cyn gynted â phosibl.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. (PAM/033) (Canlyniad 2017/18 - 55% - Blwyddyn Academaidd 16/17/ Targed 2018/19 - 56% - Blwyddyn Academaidd 17/18)	x	53.5% o'r disgyblion wedi eu hasesu yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18, ac mae hyn wedi gostwng ychydig ers y flwyddyn flaenorol. Gall carfannau disgyblion ysgol amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gall hyn effeithio ar y canlyniad. Mae hwn yn amcan tymor hir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, trwy gynyddu nifer y llefydd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Bydd hwn yn fesur araf gyda 'chamau' wrth i ysgolion newid eu darpariaeth iaith. Trwy ddilyn amcanion a chamau gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg; bydd hyn yn

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		cynnwys y Rhaglen Moderneiddio Addysg lle bydd rhagor o lefydd cyfrwng Cymraeg ar gael. Anogir yr holl ysgolion i symud ar hyd y continwrm iaith.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf) (PAM/034) (Canlyniad 2017/18 - 42.9% - Blwyddyn Academaidd 16/17 / Targed 2018/19 - 43.5% - Blwyddyn Academaidd 17/18)	✓	44.9% o ddisgyblion blwyddyn 11 wedi astudio Cymraeg (iaith gyntaf) yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18, ac mae hwn yn gynnydd ers y flwyddyn flaenorol. Fel rhan o'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, rydym yn annog mwy o fyfyrwyr i astudio Cymraeg iaith Gyntaf TGAU ac yn gobeithio cynyddu'r ganran o flwyddyn i flwyddyn.
D - Hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig		
Byddwn yn datblygu prosiect digidol 'Stordy Digidol' i hybu gwell iechyd meddwl gan arddangos casgliadau treftadaeth Sir Gaerfyrddin ar yr un pryd. (Cyf. 13287)	✓	Mae'r tîm gwasanaethau diwylliannol wedi llwyddo i sicrhau arian ar gyfer "Lleoedd Arbennig" sy'n cynnwys, ymhlith ei ddibenion cymeradwy, yr ymrwymiad i ddatblygu Stordy Digidol fel hwb ar-lein ar gyfer casglu a rhannu treftadaeth gymunedol, gan ddarparu adnodd parhaol sydd ar gael yn eang. Bydd hyfforddiant sgiliau digidol hefyd yn cael ei ddarparu i wirfoddolwyr i alluogi cymunedau i ddatblygu cynnwys ar gyfer y wefan. Cynhaliwyd y grŵp llywio cychwynnol ar gyfer y prosiect ar 6ed Mawrth, a gwnaed penderfyniad i fwrw ati i recriwtio swyddog prosiect i gyflawni'r cynllun. Mae gwefan wedi'i chreu i gadw'r cynnwys ac mae aelodau o staff o dimau'r amgueddfeydd, yr archifau a'r llyfrgelloedd wedi cael hyfforddiant i nodi a llwytho'r cynnwys. Disgwylir i'r lansiad ddigwydd tua diwedd y prosiect ar ddiwedd 2020.
Byddwn yn dechrau gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 – 2022 ac fel rhan o gyflwyno'r cynllun hwnnw, y gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol newydd. (Cyf. 13288)	✓	Cafodd "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin – strategaeth llyfrgelloedd" ei chyhoeddi a'i lansio yn ystod 2017, ac mae'n ddogfen bolisi weithio drosfwaol tan 2022. Dros y flwyddyn ddiwethaf, drwy weithredu'r strategaeth yn raddol rydym wedi gweld newidiadau sylweddol yn y gwasanaeth llyfrgelloedd gan ganolbwyntio ar 3 prif thema: y Llyfrgell fel porth gwell i ddarllen gwybodaeth a lles, y Llyfrgell Ddigidol-gwasanaeth sy'n uchelgeisiol yn ei ddefnydd o dechnoleg a mynediad digidol, y Llyfrgell fel ased gymunedol fywiog – wedi'i sefydlu a'i llunio gan y cymunedau lleol mae'n eu gwasanaethu, gan sicrhau felly fod y gwasanaeth a'r strategaeth yn cyfateb - strategaeth sy'n gallu diwallu anghenion y dyfodol.
Byddwn yn cyflawni cynllun trawsnewid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o ran Amgueddfeydd yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, Parc Howard, Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder Pentwyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. (Cyf 13289) MF5-64	✓	Amgueddfa Sir Gaerfyrddin Bydd y Prif Gynllun ar gyfer ochr allanol yr adeilad yn rhoi bod i welliannau i amgylchedd mewnol yr amgueddfa a hygyrchedd drwy addasu ac adfer y portsh ffrynt yn sensitif. Mae'r gwaith wedi'i raglennu o Hydref 2019 - Tachwedd 2020. Amgueddfa Parc Howard Mae <i>Planning Consulting Solutions Ltd</i> wedi'i gomisiynu i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar y cynllun moderneiddio arfaethedig yn Amgueddfa

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>Parc Howard, gan ganolbwyntio'n bennaf ar welliannau i gyfleusterau i ymwelwyr.</p> <p>Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli Cwblhawyd Adolygiad Llywodraethu a Chydnerthedd yr Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2019. Disgwylir penderfyniad ynghylch trefniadau llywodraethu'r dyfodol.</p> <p>Yr Amgueddfa Cyflymder Mae 'Headland Design' wedi cwblhau Cynlluniau Dehongli ar gyfer yr amgueddfa newydd i lywio ffitiadau'r datblygiad. Mae 'Real Studio' wedi cael y comisiwn ffitio ac wedi cyfrannu at y cynllun dehongli.</p>
<p>Byddwn yn datblygu Oriol Myrddin ymhellach i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. (Cyf 13530) MF5-64</p>	✓	<p>Cwblhawyd y papur adolygu llywodraethu ac mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2019. Yn yr un modd, mae'r prosiect cyfalaf wedi ei adolygu'n llawn ac mae papur opsiynau i'w gyflwyno i'r Aelodau ddechrau 2019/2020. Mae Ymddiriedolaeth Oriol Myrddin wrthi'n recriwtio o leiaf 4 ymddiriedolwr annibynnol ychwanegol fel rhan o'i hadolygiad llywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.</p>
<p>Byddwn yn cychwyn ar gynllun trawsnewid yr amgueddfeydd drwy waith ailddatblygu gwerth £1.2 miliwn yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili. (Cyf 13290) MF5-65</p>	✓	<p>Mae'r bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Porth Tywi yn parhau i gryfhau. Mae Cam 1 y gwaith coed wedi cael ei gwblhau ar draws ardaloedd a brydlesir i'r Ymddiriedolaeth ac ardaloedd a gedwir gan y Cyngor, gan roi bod i welliant trawiadol mewn diogelwch a chyflwyniad. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran adfer yr ardd furiog, a brydlesir oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru, a fydd yn estyniad deniadol i'r parc, gan arwain at ystod o fanteision cyhoeddus ac addysgiadol. Ar hyn o bryd caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ei wneud gan wirfoddolwyr. Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaeth Porth Tywi yn recriwtio ei Thîm Dylunio Prosiectau i ddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r Caffi yn yr hen adeiladau allanol yn ymyl yr amgueddfa. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn dangos y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Rhagfyr 2019.</p>
<p>Byddwn yn adolygu ac yn ailddatblygu darpariaeth y Cyngor o ran gwasanaethau theatr. (Cyf 13291) MF5-66</p>	✓	<p>Mae'r rhaglen wedi cynnwys rhai perfformwyr poblogaidd ac uchel eu proffil, ynghyd â rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol o safon uchel sydd wedi'u dylunio i ddatblygu chwaeth y gynulleidfa, disgwylid, a helpu i gefnogi gwell iechyd a llesiant. Ymhlith y mentrau a ddatblygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Grant o £50k gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi'r rhaglen artistig ar draws pob theatr dros 12 mis rhwng Ionawr a Rhagfyr 2019. Mae'r rhaglennu sydd ar y gweill yn cynnwys ffocws ar ddigwyddiadau hygyrch, rhagor o berfformiadau theatr yn y Gymraeg, a rhaglenni drama, dawn, syrcas a theatr o safon i deuluoedd.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Llysgenhadon newydd wedi'i lansio fel rhan o brosiect a ariennir drwy grant Cyngor Celfyddydau Cymru. Cynhaliwyd tri digwyddiad recriwtio yng Nghaerfyrddin, Llanelli, a Rhydaman ym mis Ionawr 2019. 13 o lysgenhadon o wahanol gefndiroedd wedi'u recriwtio. Bydd llysgenhadon yn gwirfoddoli i hyrwyddo digwyddiadau yn y gymuned ac i'n helpu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, yn gyfnewid am docynnau neu gredydau amser.
<p>Byddwn yn darparu gwasanaeth archifau a storio newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin. (Cyf 13292) <i>MF5-63</i></p>	✓	<p>Meddiannodd y contractwr y safle ar 21 Mai 2018, gan ddefnyddio rhan o faes parcio San Pedr fel clos ar gyfer y safle. Mae'r gwaith adeiladu wedi gwneud cynnydd da ac mae cragen yr ystordy wedi'i chwblhau. Mae'r contractwr ar hyn o bryd yn inswleiddio'r waliau allanol tra bo'r tu fewn yn sychu mas. Mae gwaith adnewyddu ar flaen y llyfrgell a gwaith mewnol i'r ardal gyfeirio a'r ystafell TG bron wedi'u cwblhau. Mae rhaglen y contractwyr yn cael ei monitro'n ofalus a rhagwelir ar hyn o bryd bydd y gwaith adeiladu'n cael ei gwblhau ar ddiwedd cyfnod y contract 54 wythnos. Mae camau wedi'u cymryd i gyflymu'r raddfa y mae tu mewn yr adeilad yn sychu mas. Fodd bynnag mae hyn yn dal i fod yn risg go iawn i ddyddiad cwblhau'r contract. Mae'r prosiect yn dal i gydymffurfio â'r gyllideb, ac mae cyllid allanol o £120k wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect hwn gan MALD, Llywodraeth Cymru drwy gyllid cyfalaf i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Mae'r archifdy i ailagor yn nhymor yr Hydref 2019, ar yr amod y cydymffurfir ag amodau amgylcheddol mewnol boddhaol. Mae'r strwythur staffio ar gyfer cefnogi'r gwasanaeth newydd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.</p>